TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Tystysgrif mewn Trin Gwallt Lefel 1/2



**Yn gryno**

Mae'r sector trin gwallt yn symud yn gyflym a bydd cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd yn ystod ac ar ôl y rhaglen hyfforddi ddiddorol hon

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych chi am gael gyrfa mewn trin gwallt

... Ydych chi'n weithgar ac yn gyfeillgar

... Ydych chi'n caru popeth sy'n ymwneud â gwallt a harddwch

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae nifer o fanteision i fod yn driniwr gwallt a byddai steilwyr cymwys yn dweud wrthych chi am y rhain. Os ydych chi'n meddwl am ddod yn driniwr gwallt, dyma'r prif resymau dros ddod yn un.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gallwch fod yn greadigol
Byddwch yn cwrdd â phobl newydd
Bydd cael gyrfa mewn trin gwallt yn rhoi cyfle i chi fod yn hyblyg gyda'ch oriau gwaith
Byddwch yn gallu darparu amrywiaeth o wasanaethau
Mae'n rhoi boddhad ac yn werth chweil

Mae ein cwrs wedi'i ddylunio ar gyfer pobl sydd â diddordeb gyrfa mewn trin gwallt ac mae'n ddelfrydol os oes gennych ychydig neu ddim profiad neu sgiliau mewn trin gwallt. Byddwn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid wrth ddelio â chleientiaid a sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pob math o swyddi.

Byddwch yn dysgu am:

Ymgynghoriadau cleient
Sgiliau derbynfa
Siampwio
Chwyth-sychu
Torri sylfaenol
Y grefft o wisgo gwallt
Gwallt i fyny
Lliwio gwallt
Creu golwg cyflawn gan ddefnyddio lliw.

Mae disgwyliad eich bod yn mynychu lleoliad gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd naill ai bob wythnos neu mewn bloc. Gallwch chi drefnu hyn neu bydd eich tiwtoriaid yn eich cefnogi i ddod o hyd i leoliad addas.

Caiff y cwrs ei gyflwyno drwy:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Lleoliad gwaith
Gweithgareddau cyfoethogi megis tripiau, ymweliadau, siaradwyr gwadd ac arddangosiadau allanol.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein sy'n cwmpasu gwybodaeth sylfaenol. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

NVQ Lefel 1 Trin Gwallt ac Unedau L2 mewn Trin Gwallt
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Isafswm o 3 chymhwyster TGAU, gradd G neu uwch, gan gynnwys: Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad perthnasol. Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar isafswm y cymwysterau TGAU eu hystyried yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Bydd angen hunan-gymhelliant, bod yn weithiwr caled, yn gyfeillgar a meddu ar lefel uchel o ymgyflwyniad personol.

Disgwylir i chi fynychu lleoliad gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyflwynir y cwrs ar y campws ac efallai y bydd angen i chi fod yn y coleg tan yn hwyr un noswaith yr wythnos.

Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn brif ofyniad ar gyfer y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis iau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Mae'n rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus du ac esgidiau du mewn salonau
Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na lliw ewinedd

Coleg Gwent

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dim tyllau'r corff: modrwy briodas yn unig a ganiateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £192, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd.  Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.